Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales



SWYDD WAG

Rheolwr Canolfan Tŷ Newydd

Cytundeb parhaol, llawn amser (37 awr yr wythnos)

I ddechrau o Ionawr 2027, yn ddelfrydol

Cyflog: £37,000 pro rata

Lleoliad: Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, Llanystumdwy, Gwynedd, LL52 0LW

Iaith: Mae'r swydd hon yn ddwyieithog ac mae angen sgiliau cyfathrebu yn y **Gymraeg a'r Saesneg**.

Dyddiad Cau: Dydd Llun 7 Rhagfyr 2026, canol dydd

Cyfweliadau: Dydd Llun 14 neu Ddydd Mawrth 15 Rhagfyr 2026

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales



Cliciwch i ddarganfod mwy am:

Llenyddiaeth Cymru

Gyrfaoedd a buddion staff

Ein Polisi Recriwtio

Ein Haddewid

Rôl y Rheolwr Canolfan Tŷ Newydd

Sut i ymgeisio

Rôl y Rheolwr Canolfan Tŷ Newydd

Am y Rôl

Tŷ Newydd yw Cartref Llenyddiaeth Cymru, mae hefyd yn ganolfan breswyl sy'n croesawu grwpiau o awduron sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau i ddatblygu eu crefft ysgrifennu creadigol. Mae'r ganolfan yn le bywiog a phrysur trwy gydol y flwyddyn, ac yn cael ei ddefnyddio'n achlysurol ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus, ymweliadau ysgolion, ac fel lleoliad gwyliau preifat. Mae Tŷ Newydd yn adeilad hardd sy'n llawn cymeriad a hanes diddorol ac yn adeilad rhestredig Gradd II*.

Mae Rheolwr Canolfan Tŷ Newydd yn gyfrifol am reoli'r safle o ddydd i ddydd. Mae'r prif gyfrifoldebau'n cynnwys sicrhau profiad lletygarwch o safon uchel, rheoli iechyd a diogelwch, risg, cyllid y lleoliad, a'r tîm staff rhagorol. Mae'r unigolyn yn gweithio'n agos â staff eraill ar draws ein sefydliad cenedlaethol – yn cynnwys y tîm Cyfathrebu i farchnata cyrsiau Tŷ Newydd, a'r Rheolwr Cyllid o ran cyllidebu a rhagolygon. Mae Rheolwr Canolfan Tŷ Newydd yn cael ei reoli gan Gyfarwyddwr Gweithredol y sefydliad, ac mae hefyd yn rhan o'r Uwch Dîm Arwain, gan gyfrannu at ein cynllunio strategol.

Mae hon yn rôl gyffrous ac amrywiol sy'n gofyn am agwedd gadarnhaol, sgiliau trefnu a pharatoi, a'r gallu i ddatrys problemau ar fyr rybudd, er mwyn sicrhau bod cyrsiau a gweithgareddau'r ganolfan yn cael eu cynnal yn esmwyth. Mae'r Rheolwr yn goruchwylio gwaith cynnal a chadw'r adeilad, ac yn cynnal perthnasau gwaith agos â chrefftwyr lleol er mwyn diogelu a gwella'r safle. Mae'r rôl hefyd yn cynnwys gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol i gyflawni gwaith cadwraeth hanfodol i'r ganolfan, yn dilyn derbyn grant cyfalaf yn ddiweddar gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.

Bydd y Rheolwr yn croesawu gwesteion o bob cwr o Gymru a thu hwnt i Dŷ Newydd, felly mae **sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon**.

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

Rôl y Rheolwr Canolfan Tŷ Newydd

Meysydd darparu allweddol:

- Cyflawni rhaglen cyrsiau ac encilion Tŷ Newydd gan sicrhau gwaith tîm llyfn sydd yn anghenrheidiol er mwyn darparu profiad rhagorol i'r holl westeion.
- Rheoli rhaglen o logi masnachol gan gydbwyso cynhyrchu incwm ag effaith elusennol.
- Sicrhau bod Tŷ Newydd yn gweithredu o fewn yr holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol iechyd a diogelwch, gan gynnwys rheoli hyfforddiant staff a sicrhau bod anghenion mynediad yn cael eu diwallu.
- Ymfalchïo yn ein hadeilad rhestredig gradd II*, gan sicrhau ei fod yn ddiogel, yn groesawgar, yn gyfeillgar i'r amgylchedd ac yn weddus i westeion.
- Gweithio ochr yn ochr â'r Cyfarwyddwr Gweithredol i ddatblygu a chyflawni Cynllun Gwaith yn seiliedig ar ein cynllun rheoli cadwraeth ac anghenion cynnal a chadw.
- Rheoli tîm Gweithrediadau Tŷ Newydd: Cogydd y Tŷ, Cydlynydd Lletygarwch a'r Cydlynydd Gweithrediadau.
- Rheoli cyllidebau, gan gynnwys rhagweld a chymodi.
- Cefnogi'r Arweinydd Cyfathrebu i gyflawni'r cynllun marchnata, a chadw'r wefan yn gyfredol.
- Cydlynu'r swyddfa, gan gynnwys: rheoli adnoddau a gwasanaethau, ymateb i ymholiadau, cynnal calendr a systemau archebu'r ganolfan, a threfnu gweithgareddau cymdeithasol.
- Cyfrannu i waith Uwch Dîm Arwain Uwch Llenyddiaeth Cymru gan gynnwys; adrodd ar effaith, targedau a chymryd rhan mewn trafodaethau strategol am y sector llenyddol.
- Unrhyw dasgau eraill yn ôl yr angen rhesymol.

Rôl y Rheolwr Canolfan Tŷ Newydd

Rydym yn chwilio am rywun sy'n meddu'r canlynol:

- Profiad o reoli yn y sector lletygarwch a/neu reoli busnes.
- Profiad o reoli staff.
- Sgiliau hyderus a chyfeillgar lletygarwch a rhyngweithio â chwsmeriaid, ynghyd â'r gallu i ddatrys problemau.
- Dealltwriaeth o gynnal a chadw adeiladau a rheoli gwasanaethau cyfleusterau.
- Gwybodaeth fanwl am iechyd a diogelwch, a phrosesau rheoli risg.
- Ymwybyddiaeth o sut i gynnal safonau gwyrdd ac ecogyfeillgar o fewn prosesau'r ganolfan.
- Dealltwriaeth o brosesau gwerthiant, a'r gallu i weithio fel rhan o dîm i'w monitro a'u cynyddu.
- Dealltwriaeth dda o systemau cyfrifiadurol, gan gynnwys Excel, systemau CRM neu systemau rheoli archebion.
- Dealltwriaeth dda o gyllidebau, rhagolygon ariannol, cysoni cyfrifon ac anfonebu.
- Y gallu a'r parodrwydd i weithio oriau anghymdeithasol, gan gynnwys yn achlysurol ar benwythnosau, gwyliau banc a gyda'r nos.
- Sgiliau cyfathrebu clir, sensitif a chadarnhaol – yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Sgiliau cyfathrebu yn yr iaith Gymraeg ac agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith.

Rôl y Rheolwr Canolfan Tŷ Newydd

Sgiliau dymunol:

- Profiad o siarad cyhoeddus.
- Ymwybyddiaeth o'r byd llenyddol yng Nghymru.
- Ymwybyddiaeth o waith cynnal a chadw Adeiladau Rhestredig.
- Dealltwriaeth dda o farchnata a segmentu cynulleidfaoedd.

Yn atebol i: Cyfarwyddwr Gweithredol

Bydd unrhyw gynnig swydd yn amodol ar wiriad DBS priodol.

Os oes gennych ddiddordeb yn y rôl hon ond eich bod yn ansicr a oes gennych ddigon o brofiad, cysylltwch ag Alys Lewin, Rheolwr Gweithrediadau (alys@llenyddiaethcymru.org / 02920 472266) am sgwrs anffurfiol.

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales



Sut i ymgeisio

1. **Darllenwch y swydd ddisgrifiad uchod a'r rhestr o rinweddau** yn ofalus. Yn ogystal, darllenwch **Gynllun Strategol 2022-27 Llenyddiaeth Cymru** yma ac edrychwch ar ein gwefan.
2. **Ysgrifennwch lythyr cais* neu greu cais fideo*** yn esbonio **pam** eich bod â diddordeb yn y rôl, a sut yr ydych yn addas ar ei chyfer (e.e., soniwch am eich profiadau, a pha elfennau penodol sy'n eich diddori am y swydd). Bydd ceisiadau ysgrifenedig a cheisiadau fideo yn cael eu hasesu yn gyfartal.

   *Uchafswm o 2 dudalen A4, neu fideo 5-munud.
3. Gyrrwch y canlynol at post@llenyddiaethcymru.org erbyn **canol dydd ar Ddydd Llun 7 Rhagfyr 2026.**

- Eich llythyr neu gais fideo;
- Eich **CV** a manylion dau ganolwr** sy'n eich adnabod mewn cyd-destun proffesiynol. Byddwn ond yn cysylltu â chanolwyr ar ôl i gynnig o gyflogaeth gael ei dderbyn;
- Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llenyddiaeth Cymru wedi ei chwblhau (ar gael yma).

**Uchafswm o 2 dudalen A4

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales



Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn asesu'r ceisiadau ac yn gwahodd ymgeiswyr llwyddiannus i gyfweliad yng **Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd ar ddydd Llun 14 neu Dydd Mawrth 15 Rhagfyr 2026**. Bydd tri aelod o staff Llenyddiaeth Cymru ar y panel cyfweld. Er mai cyfweliad ffurfiol fydd hwn, byddwn yn sicrhau fod pob ymgeisydd yn gyffyrddus â'r broses ymgeisio.

Os yw'r broses gyfweld yn peri gofid neu bryder i chi, rhowch wybod i Alys Lewin, Rheolwr Gweithrediadau o flaen llaw fel y gallwn drefnu sgwrs anffurfiol neu sgwrs dros y ffôn/fideo cyn y cyfweliad. Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod y rôl ymlaen llaw, neu i ofyn am ragor o wybodaeth. I siarad â Alys yn uniongyrchol neu i drefnu galwad yn ôl, anfonwch e-bost ati i Alys@llenyddiaethcymru.org. Byddwn yn cysylltu â'r holl ymgeiswyr gyda chanlyniad y cyfweliadau erbyn Dydd Llun 21 Rhagfyr 2026.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig sy'n gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales